

Profion anadlu

Profion i gael samplau o'ch ysgyfaint



Os bydd eich meddyg eisiau gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd tu mewn i'ch ysgyfaint, yna efallai y cewch ragor o brofion. Mae amryw o brofion sy'n edrych y tu mewn i'ch ysgyfaint:

- broncosgopi
- biopsi
- thoracosgopi gyda chymorth fideo (VATS)

Broncosgopi

Beth yw broncosgopi?

Broncosgopi yw prawf sy'n cael ei ddefnyddio i weld tu mewn i'ch ysgyfaint, rhag ofn fod unrhyw beth annormal yno, ac i gael samplau o'ch ysgyfaint i gael eu dadansoddi.

Caiff tiwb tenau, hyblyg ei ddefnyddio o'r enw broncosgop ffibr optig. Mae golau arno aamera bach iawn ar un pen, fel bod y sawl sy'n gwneud y prawf yn gallu gweld eich llwybrau anadlu. Caiff y tiwb ei basio drwy eich trwyn neu eich ceg, i lawr eich pibell wynt ac i mewn i'ch ysgyfaint.

Defnyddir anesthetig lleol i wneud hyn mor gyfforddus â phosibl ac efallai y cewch feddyginiaeth hefyd i'ch gwneud chi'n gysglyd.

Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?

Efallai bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn defnyddio broncosgopi i:

- edrych ar y celloedd yn yr ysgyfaint – golchi bronciol yw ble mae ychydig o ddŵr hallt yn cael ei olchi i mewn i'r ysgyfaint yna'i sugno yn ôl allan eto. Mae hyn yn cymryd ychydig o gelloedd o'r ysgyfaint i'w hanfon i labordy i'w dadansoddi. Wrth eu dadansoddi, mae modd gweld a oes llid neu haint. Mae golchi bronciol yn gallu helpu i chwilio am dystiolaeth o gelloedd canser hefyd.
- cymryd biopsi bach o'r llwybrau anadlu, neu o feinwe yr ysgyfaint ei hun, i helpu wneud diagnosis.
- cymryd samplau o'r nodau lymff yn yr ysgyfaint gan ddefnyddio nodwyddau bach. Allsugno nodwydd trawsbronciol yw'r enw ar hyn.

Sut alla' i baratoi am broncosgopi?

Cewch lythyr gan yr ysbyty yn dweud wrthyh sut i baratoi am eich broncosgopi. Bydd angen i chi osgoi bwyta ac yfed, a pheidio ag ysmegu am rai oriau cyn y prawf. Efallai bydd angen i chi hefyd beidio â chymryd rhai mathau o feddyginiaethau. Bydd mwy o fanylion yn y llythyr. Cofiwch ei ddarllen yn ofalus. Gofalwch fod gennych rywun all ofalu amdanoch chi ar ôl y prawf. Byddwch wedi cael meddyginiaeth i'ch tawelu, felly bydd angen i rywun fynd â chi adref. Ni chewch yrru na gweithredu peiriannau am 24 awr wedyn.

Beth sy'n digwydd yn ystod broncosgopi?

Bydd y tîm sy'n gwneud y broncosgopi yn egluro i chi pam eu bod nhw'n gwneud y prawf, a beth fydd yn digwydd. Byddant yn gofyn i chi lenwi ffurflen gydsynio. Cofiwch eu holi am unrhyw bryderon sydd gennych, a dweud wrthynt os ydych chi'n bryderus. Mae modd newid y feddyginiaeth i roi ystyriaeth i hyn.

Cyn eich broncosgopi, caiff eich pwysedd gwaed, pwls a lefelau ocsigen eu cymryd. Bydd gofyn i chi dynnu eich sbectol a'ch dannedd gosod, os ydych chi'n gwisgo rhai.

Cewch anesthetig lleol ar ffurf chwistrelliad, fel nad oes teimlad yn eich ceg a'ch gwddf.

Yn aml, caiff pobl feddyginiaeth i'w tawelu ar gyfer y prawf. Fel arfer, chwistrelliad sy'n gwneud chi'n gysglyd yw hyn. Yn aml iawn, ni all pobl gofio unrhyw beth am y prawf wedyn.

Unwaith y byddwch chi'n gyfforddus a bod yr anesthetig yn gweithio, caiff y broncosgop ei roi i mewn drwy eich trwyn neu eich ceg, i lawr i'ch ysgyfaint. Mae camera ar y tiwb i'r meddyg weld i mewn i'ch ysgyfaint. Efallai bydd y meddyg yn fflysio dŵr i lawr y tiwb, i dynnu celloedd i'w profi yn y labordy. Weithiau, caiff biopsi ei gymryd ar yr un pryd â broncosgopi. Bydd broncosgopi yn cymryd ryw 15 i 20 munud fel arfer. Wedi hynny, bydd angen i chi ddod at eich hun am ryw awr cyn mynd adref.

Broncosgopi uwchsain endobronciol (EBUS)

Mae'r math hwn o broncosgopi yn defnyddio math arbennig o broncosgop efo uwchsain, i weld tu mewn i'r ysgyfaint a chymryd sampl meinwe. Caiff ei ddefnyddio'n aml i gael sampl o'r nodau lymff yn yr ysgyfaint. Gall roi canlyniadau cliriach na broncosgopi arferol.

Caiff EBUS ei wneud tra byddwch chi wedi cael eich tawelu (sedated), a gall gymryd hyd at awr. Wedyn, bydd angen i chi ddod at eich hun am hyd at ddwy awr cyn i chi fynd adref.

Pryd fyddai'n cael y canlyniadau?

Efallai na chewch chi y canlyniadau ar unwaith. Cewch apwyntiad efo eich meddyg i drafod y canlyniadau.

Biopsi o'r ysgyfaint gyda CT

Beth yw biopsi o'r ysgyfaint?

Efallai bydd eich gweithiwr gofal iechyd eisiau tynnu darn bach o feinwe neu gelloedd i'w profi. Biopsi yw'r enw ar hyn.

Biopsi o'r ysgyfaint yw pan fydd y meinwe neu'r celloedd yn cael eu tynnu o'r ysgyfaint.

Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?

Os oes darn annormal yn yr ysgyfaint yn dangos ar sgan, mae biopsi yn un ffordd o gael samplau i'w dadansoddi i weld beth ydyw.

Sut alla' i baratoi am biopsi o'r ysgyfaint?

Cewch lythyr gan yr ysbyty efo cyfarwyddiadau. Cewch daflen wybodaeth hefyd sy'n dweud mwy wrthynt chi am y drefn a'r peryglon. Gofalwch ddarllen yr wybodaeth yn ofalus. Bydd angen i chi gael prawf gwaed cyn y biopsi i ofalu bod y gwaed yn ceulo yn iawn.

Beth sy'n digwydd yn ystod biopsi o'r ysgyfaint ?

Bydd y sawl sy'n gwneud y biopsi yn egluro'r drefn ac unrhyw beryglon.

Cyn y biopsi, cewch ganwla yn eich braich, er mwyn i chi allu cael meddyginiaeth i'ch tawelu os bydd angen.

Mae'n debyg y cewch anesthetig lleol fel bod y biopsi mor gyfforddus â phosibl. Weithiau, caiff y biopsi ei wneud dan anesthetig cyffredinol.

Bydd nodwydd yn cael ei rhoi drwy'r croen i mewn i'ch ysgyfaint, gan ddefnyddio sgan CT i helpu. Caiff darn bach o feinwe ei dynnu. Nid yw hyn yn brifo fel arfer. Pan fydd digon o feinwe wedi'i thynnu, caiff dresin ei roi ar eich clwyf.

Ar ôl y biopsi, bydd angen i chi ddod at eich hun am ryw 4 i 5 awr cyn mynd adref, a gorffwysu am 24 awr cyn dychwelyd i'r gwaith.

Beth yw thoracosgopi gyda chymorth cyfrifiadur (VATS)?

Mae thoracosgopi gyda chymorth fideo (VATS) yn golygu llawdriniaeth dan anesthetig lleol i gael darn mwy o feinwe'r ysgyfaint. Bydd llawfeddyg yn gwneud toriadau maint twll clo yn eich brest i dynnu samplau meinwe o'ch ysgyfaint. Byddwch yn aros yn yr ysbyty am rai dyddiau gyda'r prawf.

Biopsi o'r ysgyfaint a niwmothoracs

O dro i dro, bydd y biopsi yn achosi i ychydig o aer ollwng ac i'r ysgyfaint ddisgyn oddi wrth wal y frest. Niwmothoracs yw'r enw ar hyn ac efallai bydd angen ei drin drwy roi tiwb bach i mewn i'r frest i adael i'r aer ddianc. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n debyg y bydd angen i chi aros yn yr ysbyty am rai dyddiau wedyn.

Pryd fyddai'n cael y canlyniadau?

Ni chewch y canlyniadau ar unwaith. Cewch apwyntiad efo eich meddyg i drafod y canlyniadau, a beth sy'n digwydd nesaf.

Cysylltwch â ni er mwyn darganfod cymorth yn agos i chi.

Llinell gymorth: 03000 030 555

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb-5yh

Ni fydd galw ein llinell gymorth fyth yn costio mwy na galwad lleol ac mae'r galwad fel arfer yn rhad ac am ddim, hyd yn oed ar ffôn symudol.

helpline@blf.org.uk

blf.org.uk

Cod: BK17 **Fersiwn:** 3

[blf.org.uk/breathing-tests](https://www.blf.org.uk/breathing-tests)

Adolygiad diwethaf: Ionawr 2020

Adolygiad nesaf: Ionawr 2020

Rydym ni'n gwerthfawrogi adborth ar ein gwybodaeth. Er mwyn mynegi eich barn, ac am y fersiwn diweddaraf o'r wybodaeth hon a chyfeirnodau, galwch y llinell gymorth neu ymwelwch â [blf.org.uk](https://www.blf.org.uk)